

2022 Rhif (Cy.)

2022 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042
(Cylchfan Caerllion, Casnewydd i
Gylchfan Cwmbrân, Torfaen)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2022

The A4042 Trunk Road (Caerleon
Roundabout, Newport to Cwmbran
Roundabout, Torfaen) (Temporary
Prohibition of Vehicles) Order
2022

Gwnaed 1 Medi 2022
Yn dod i rym 7 Medi 2022

Made 1 September 2022
Coming into force 7 September 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A4042 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Caerllion, Casnewydd i Gylchfan Cwmbrân, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Medi 2022.

1. The title of this Order is the A4042 Trunk Road (Caerleon Roundabout, Newport to Cwmbran Roundabout, Torfaen) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2022 and this Order comes into force on 7 September 2022.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 7 Medi 2022 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwys

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y’i dangosir gan arwyddion traffig.

Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

1 Medi 2022

Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A4042 Newport to Shrewsbury trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 7 September 2022 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

1 September 2022

Nicci Hunter

Business Team Leader
Welsh Government

YR ATODLEN

Y darn o gerbyttffordd tua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Caerllion hyd at drwyniad ffordd ymadael tua’r gorllewin Cyffordd 25A yr M4.

Y darn o gerbyttffordd tua’r dwyrain y gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Grove Park hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Caerllion, Casnewydd.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Grove Park, Casnewydd hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Croes-y-mwyalch, Torfaen.

SCHEDULE

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the western side of Caerleon Roundabout to the nosing of the M4 Junction 25A westbound exit slip road.

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the eastern side of Grove Park Roundabout to its junction with the western side of Caerleon Roundabout, Newport.

The length of the trunk road that extends from its junction with the northern side of Grove Park Roundabout, Newport to its junction with the southern side of Croes-y-Mwyalch Roundabout, Torfaen.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Croes-y-mwyalch hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Crown, Torfaen.

The length of the trunk road that extends from its junction with the northern side of Croes-y-Mwyalch Roundabout to its junction with the southern side of Crown Roundabout, Torfaen.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Crown hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Turnpike, Torfaen.

The length of the trunk road that extends from its junction with the northern side of Crown Roundabout to its junction with the southern side of Turnpike Roundabout, Torfaen.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Turnpike hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Edlogan Way, Torfaen.

The length of the trunk road that extends from its junction with the northern side of Turnpike Roundabout to its junction with the southern side of Edlogan Way Roundabout, Torfaen.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Edlogan Way hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Cwmbrân, Torfaen.

The length of the trunk road that extends from its junction with the northern side of Edlogan Way Roundabout to its junction with the southern side of Cwmbran Roundabout, Torfaen.